# Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol
**EUR(3) 05-08 (p2) : 19 Mehefin 2008**

# Adroddiad y Gweinidog

## Diben

1. Mae'r adroddiad hwn mewn ymateb i wahoddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor i gyflwyno bwletin ar ystod o faterion, ac yn benodol ar gais y Cadeirydd, cyflwyno gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar gyllideb yr UE, yr ymgynghoriad ar ddyfodol polisïau rhanbarthol, cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar Archwiliad Iechyd y PAC (gan gynnwys bwletin ar ganlyniadau ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad) a Strategaeth Lisbon (gan gynnwys bwletin ar ymweliad swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd â Whitehall).

## Argymhelliad

2. Bod aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

## Cefndir

3. Y tro diwethaf i mi annerch y Pwyllgor oedd ar 28 Chwefror 2008. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf.

## Gweithgareddau Rhyngwladol Prif Weinidog Cymru

- **27 Chwefror 2008 - Derbyniad ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol**

Roedd yn bleser gennyf arwain derbyniad, gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, i 160 o fyfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio mewn prifysgolion a cholegau ledled Cymru. Roedd y derbyniad yn gyfle i mi glywed gan y myfyrwyr a ydynt yn mwynhau eu hamser yng Nghymru, yn gyfle i mi diolch iddynt yn bersonol am ddewis astudio yng Nghymru ac yn gyfle i fy staff gasglu manylion cyswllt y myfyrwyr er mwyn i ni gadw mewn cysylltiad â nhw wedi iddynt ddychwelyd adref i roi gwybod iddynt am ddatblygiadau yng Nghymru. Bydd modd iddynt felly fod yn llysgenhadon anffurfiol ar ein rhan.

- **15 Mawrth 2008 Llefarydd a Chlerc, Senedd De Cymru Newydd**

Cwrddais â Richard Torbay, Llefarydd Cynulliad Deddfwriaethol De Cymru Newydd yn Senedd De Cymru Newydd, a Russell Groves, Clerc y Cynulliad

Deddfwriaethol. Ymweliad cwrteisi oedd hwn y tu allan i'r cyfarfod llawn a chafwyd trafodaeth fer am y gweithdrefnau gwahanol yn neddfwrfeydd Cymru a De Cymru Newydd. Hefyd cawsom y diweddaraf am y Llywodraeth Lafur Ffederal newydd yn Awstralia, sy'n cynnwys Julia Goodard a anwyd yn y Barri, sef Dirprwy Brif Weinidog benywaidd cyntaf Awstralia.

- **6 Mai 2008 – Diwrnod Dathlu Ewrop yn Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, Cae Caerdydd**

Mynychais dderbyniad yn Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd ym Mae Caerdydd i ddathlu Diwrnod Ewrop, lle cyflwynais araith fer gerbron dros 100 o gynrychiolwyr.

- **12 May 2008 - Bertrand Cochery, Prif Gonswl, Llysgenhadaeth Ffrainc Llundain**

Cefais gyfarfod byr gyda M. Cochery am y posibilrwydd o ymweliad â Chymru yn ddiweddarach eleni gan Ei Ardderchogrwydd M. Maurice Gourdault-Montagne, Llysgennad Ffrainc i'r Deyrnas Unedig. Hefyd cymerwyd y cyfle i drafod y nifer fawr o gwmnïau o Ffrainc sy'n gweithredu yng Nghymru.

- **28 Mai 2008 Seminar Xiamen ar Gynllunio Gwlad a Thref**

Roedd yn bleser gennyf gael y cyfle i agor y seminar hon oedd yn pwysleisio'r cydweithredu rhwng Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Xiamen, ac roedd yn rhan o'r dathliadau i nodi 25 mlynedd ers gefeillio Dinas Caerdydd a Rhanbarth Dinesig Xiamen.

## Materion Eraill

### ARCHWILIAD IECHYD Y PAC

Nid adolygiad sylfaenol o gyfeiriad y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yw'r Archwiliad Iechyd, ond yn hytrach gwerthusiad o'r ffordd y mae'r diwygiadau diwethaf yn 2008 yn gweithio a p'un a oes angen addasu agweddau penodol. Bydd strwythur cyfredol y PAC ar waith tan 2013.

Mae'r broses ddiwygio yn parhau, gyda'r UE yn cynyddu o 15 i 27 o wledydd. Mae Archwiliad Iechyd y PAC yn delio â'r cyfnod 2009-2013. Diwygio'r PAC yn y tymor hwy yw prif destun Adolygiad Cyllideb yr UE.

Dechreuodd adolygiad yr Archwiliad Iechyd gyda chyhoeddi cynigion y Comisiwn ar gwmpas a natur newidiadau posibl ym mis Tachwedd 2007. Cyhoeddodd y Comisiwn reoliadau drafft ar 20 Mai 2008 a'r bwriad yw dod i gytundeb yn wleidyddol ar lefel yr UE erbyn Hydref 2008. Disgwylir i'r

ddeddfwriaeth gael ei sefydlu erbyn 1 Ionawr 2009. Mae angen cymeradwyaeth gan bob un o'r 27 o Aelod-Wladwriaethau a Senedd Ewrop.

Bydd angen i'r Aelod-Wladwriaethau drafod rhai materion yn ddwys – er enghraifft y manylion ynghylch y posibilrwydd o addasu neu aildargedu'r gofynion trawsgydymffurfio, pennu lefelau isaf ac uchaf ar daliadau a chadarnhau'r trefniadau i gyfarwyddo cronfeydd modiwleiddio sy'n codi yn sgil cynnydd mewn modiwleiddio gorfodol yn yr UE.

Ni fydd arian ychwanegol ar gyfer y PAC – ni fydd yr Archwiliad Iechyd yn cynyddu'r gyllideb gyfredol.

Mae crynodeb o'r cynigion a gyhoeddwyd ar 20 Mai yn **Atodiad A**.

## YMGYNGHORIAD ADOLYGIAD CYLLIDEB YR UE

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi anfon ei ymateb i ymgynghoriad Adolygiad Cyllideb yr UE a gellir ei weld ar wefan y Comisiwn Ewropeaidd, sef ec.europa.eu. Mae'r ymateb yn ystyried yr heriau i wariant yr UE yn y dyfodol ac yn datgan ein barn ar reoli cyllid yr UE, gan dynnu ar ein profiadau. Byrdwn cyffredinol yr ymateb yw galw am gymorth ariannol parhaus i gyflawni targedau Strategaeth Lisbon yr UE ar gyfer twf a swyddi, cyllid trosiannol i ranbarthau sy'n symud i ffwrdd o gyllid cydgyfeirio a symleiddio'r gwaith o reoli arian yr UE.

Yn sgil nifer y cyfraniadau a faint o ddiddordeb sydd yn yr ymgynghoriad, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ymestyn y dyddiad cau i 15 Mehefin 2008.

## YMGYNGHORIAD AR DDYFODOL Y POLISI CYDLYNIANT

Daeth ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd i ben ar 31 Ionawr 2008. Chwaraeodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ran weithgar o ran datblygu ymateb Llywodraeth y DU i'r ymgynghoriad. Disgwylir y bydd adroddiad yr ymgynghoriad, ynghyd â'r Pumed Adroddiad Cynnydd ar Gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin.

Cynhaliodd Llywyddiaeth Slofenia o'r UE gynhadledd ar ddyfodol y Polisi Cydlyniant ar 7 ac 8 Ebrill 2008 i roi mwy o strwythur, ffocws a chadernid i'r drafodaeth. Cafwyd cyfraniadau gan swyddogion yr Aelod-Wladwriaethau (gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru), cynrychiolwyr sefydliadau Ewropeaidd a chymdeithasau rhanbarthol. Roedd y prif gasgliadau'n cynnwys y canlynol: mae'r Polisi Cydlyniant yn bwysig, dylai cydgyfeirio fod yn brif ffocws i'r polisi a dylid archwilio cynigion symleiddio ymhellach.

Bydd Llywyddiaeth Ffrainc yn datblygu'r drafodaeth ar ddyfodol y Polisi Cydlyniant.

## BLAENORIAETHAU LLYWYDDIAETH FFRAINC O'R UNDEB EWROPEAIDD

Bydd Ffrainc yn cymryd Llywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd ar 1 Gorffennaf, gan olynu Slofenia. Dyma ddechrau'r Llywyddiaeth Driphlyg nesaf, gyda Ffrainc, y Weriniaeth Tsiec a Sweden. Disgwylir i gyd-raglen waith y Llywyddiaeth gael ei chyhoeddi ym mis Mehefin. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu mai blaenoriaethau Ffrainc fydd ynni a newid yn yr hinsawdd (datblygu'r pecyn ynni a newid yn yr hinsawdd, y farchnad ynni fewnol a diogelwch cyflenwadau ynni), ymfudiad (y cytundeb ymfudiad Ewropeaidd) ac amddiffyn (offerynnau i helpu i ddatrys argyfyngau). Byddant hefyd yn trafod dyfodol polisïau cyffredin ar ôl diwedd y Persbectif Ariannol cyfredol yn 2013, yn arbennig y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae hyn yn debygol o ddigwydd yn y Cyngor anffurfiol ym mis Medi.

## CYTUNIAD LISBON

Mae Llywodraeth y DU yn cadarnhau'r Cytuniad drwy Fesur Seneddol. Cymeradwyodd Tŷ'r Cyffredin Fesur yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) ar 11 Mawrth a chafodd ei drosglwyddo i Dŷ'r Arglwyddi. O 2 Mehefin ymlaen, roedd 15 o Aelod-Wladwriaethau wedi cadarnhau'r Cytuniad drwy bleidleisiau seneddol. Iwerddon yw'r unig wlad fydd yn cynnal i'w gadarnhau a bydd hyn yn digwydd ar 12 Mehefin. Rhaid i bob Aelod-Wladwriaeth gadarnhau'r Cytuniad cyn iddo ddod i rym.

## STRATEGAETH LISBON

Yng Nghyngor Ewropeaidd y Gwanwyn ym mis Mawrth, lansiwyd cylch tair blynedd newydd (2008-2010) ar gyfer Strategaeth Lisbon ar gyfer twf a swyddi. Cadarnhaodd y Cyngor y bydd y canllawiau presennol ar gyfer polisïau economaidd a chyflogaeth yn parhau, gan gefnogi argymhellion penodol y gwledydd a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch polisïau'r Aelod-Wladwriaethau.

Mae'r gwaith wedi dechrau ar ddiweddaru Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU eleni, sy'n nodi'r polisïau sy'n cefnogi Strategaeth Lisbon. Aeth swyddog o Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyfarfod yn yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio ar 4 Ebrill i drafod polisïau gyda swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd. Cynhaliwyd y cyfarfod i baratoi ar gyfer Ymweliad Technegol llawn gan dîm o swyddogion o'r Comisiwn â'r Trysorlys ar 23 Mehefin. Bydd y cyfarfod hwn yn trafod diweddaru Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU eleni. Bydd swyddog yn ein cynrychioli unwaith eto, a fydd yn cyfrannu at adroddiad diweddaru Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU, a gyhoeddir ym mis Medi.

## CYNGOR CLYWELEDOL A DIWYLLIANT YR UE, 21 MAI

Rhodri Glyn Thomas, y Gweinidog dros Dreftadaeth, gynrychiolodd y DU yn y Cyngor. Trafodwyd “Creative Content Online” cyn cynnig gan y Comisiwn a chytunodd y Gweinidogion ar Gasgliadau'r Cyngor ar y trydydd Cynllun Gwaith Diwylliant 2008-10

## JESSICA

Mae'r Pwyllgor wedi derbyn gwybodaeth yn y gorffennol am fenter JESSICA (Cyd-gymorth Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Cynaliadwy mewn Ardaloedd Dinesig) gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae Banc Buddsoddi Ewrop bellach wedi rhoi'r contract i gynnal astudiaeth gwmpasu Cymru i King Sturge. Disgwylir canlyniadau'r astudiaeth mewn tua 4 mis.

## ADDYSG A HYFFORDDIANT

Yn dilyn y polisi a gymeradwyais ym mis Medi 2006, a thrwy aelodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o EARLALL (y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Awdurdodau Dysgu Gydol Oes Rhanbarthol a Lleol), rydym wrthi'n datblygu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ym maes symudedd addysgol gyda nifer o ranbarthau partner Ewropeaidd. Mae'r rhain yn adeiladu ar waith sydd eisoes yn cael ei rannu gyda rhanbarthau partner, fel prosiect y Cynllun Dilysu Cymwyseddau Ewropeaidd, sydd bellach wedi'i gwblhau'n llwyddiannus, oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu ffyrdd cyffredin o asesu cymwyseddau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

Arwyddodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y Memorandwm cyntaf **[yn amodol ar gytundeb]** gyda Chatalonia a Thoscana yng nghyfarfod diweddar Bwrdd EARLALL yng Nghaerdydd ar 6 Mehefin. Mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth eraill wrthi'n cael eu datblygu gydag Ynysoedd Balears, Gwlad y Basg, Andalucía a Llydaw. Rwy'n disgwyl i'r Memoranda hyn ategu datblygiad a gweithrediad cyfleoedd gwell i fyfyrwyr ac ymarferwyr gael lleoliadau gwaith a hyfforddiant, a rhannu arfer gorau.

Rydym eisoes wedi cael adborth cadarnhaol ar ddatblygiad myfyrwyr yn dilyn y peilot o gyfnewid myfyrwyr rhwng colegau addysg bellach Cymru a sefydliadau cyfatebol ar Ynysoedd Balears dros y 18 mis diwethaf, gyda chefnogaeth frwd gan Lywodraeth Ynysoedd Balears. Mae ymarferwyr o'r rhanbarth yn bwriadu ymweld â Chymru yn yr hydref i ymchwilio i gyfleoedd pellach i gydweithredu â'n sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, ac adolygu polisïau a rhaglenni dysgu gydol oes Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn wir, mae'r berthynas rhwng Cymru a Chatalonia wedi dyfnhau yn dilyn ymweliad astudio gan swyddogion Adran Addysg Generalitat de Cataluyna ym mis Tachwedd y llynedd. Roedd y swyddogion o Gatalonia'n edmygu ansawdd yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu drwy'n colegau addysg bellach, ac roedd ganddynt ddiddordeb arbennig mewn sut rydym yn gwneud y defnydd gorau o TGCh i wella mynediad a chyfleoedd dysgu. Roeddent hefyd yn edmygu'r ystod o gymorth sydd ar gael drwy Gyrfa Cymru, a brwdfrydedd a phroffesiynoldeb ein staff gyrfaoedd ac arweiniad.

## 6-9 MAWRTH 2008 - YMWELIAD Â CHONGQING

Bûm ar ymweliad â Chongqing yn ystod 'Wythnos Cymru' ym mis Mawrth i arwyddo Cytundeb Cydweithredu ffurfiol rhwng Cymru a Chongqing a chymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau i hybu proffil Cymru yn Ne Orllewin Tsieina.

Mae'r Cytundeb Cydweithredu ffurfiol yn cymryd lle'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a arwyddwyd yn 2006, ac mae'n ymdrin â chydweithredu ym meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg, diwylliant, iechyd, addysg, amaethyddiaeth, datblygu economaidd, rheoli coedwigoedd, yr amgylchedd, llywodraethu, twristiaeth a chynllunio defnydd tir. Mae'r berthynas â Chongqing wedi datblygu'n hynod o gyflym dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n addo parhau i ddatblygu fel hyn. Cynhaliwyd y seremoni arwyddo yn Amgueddfa'r Tri Cheunant, sef lleoliad arddangosfa wythnos Darganfod Cymru, a gafodd sylw helaeth yn y cyfryngau. Arweiniais dderbyniad yn yr Amgueddfa, gan lansio'r llyfr cyntaf yn yr iaith Mandarin sy'n llwyr am Gymru, a mynychu seremoni arwyddo ar gyfer cyd-fenter rhwng Enfis o Abertawe a TianHai Medical Equipment Co Ltd o Chongqing.

Roedd fy ymweliad hefyd yn cynnwys cyfarfod gyda Dirprwy Faer Llywodraeth Rhanbarth Dinesig Chongqing i drafod ein perthynas, ac ymweliadau â chlinig gofal iechyd cymunedol, canolfan addysg a hyfforddiant plant/ieuenctid, ysgol sydd wedi gefeillio ag ysgol yng Nghaerdydd a swyddfeydd Is-gennad Prydain a'r Cyngor Prydeinig. Hefyd bûm i weld 'Arena Darganfod Cymru' yn yr arddangosfa addysg ryngwladol yn Chongqing (oedd hefyd yn ymweld â phedair dinas arall), gan gynnal sawl cyfweliad â'r cyfryngau.

Aeth taith fasnach i Chongqing yn ystod Wythnos Cymru, yn ogystal â chynrychiolwyr ysgolion ac awdurdodau addysg lleol Cymru i ddatblygu ymhellach y cysylltiadau y mae ysgolion wedi'u sefydlu.

Yn dilyn y daeargryn yn Nhalaith Sichuan ar 12 Mai, ysgrifennais at Faer a phobl Chongqing, a hefyd at Lysgennad Tsieina i'r DU, i fynegi fy nghydymdeimlad.

## HYRWYDDWYR CYMRU

I gyd-fynd â dathliadau Dydd Gŵyl Dewi eleni, cyhoeddais i a'r Dirprwy Brif Weinidog Cymru bum Hyrwyddwr Cymru newydd - sef Syr Martin Evans; Syr John Houghton; Syr Terry Matthews; yr Henadur David Lewis a Henry Engelhardt – i gydnabod eu cyfraniad i hyrwyddo Cymru yn y byd. Mae Hyrwyddwyr Cymru yn arweinwyr yn eu meysydd sy'n gallu gwneud gwahaniaeth anferthol i ddelwedd Cymru yn y byd.

## GŴYL RYNG-GELTAIDD LORIENT

Ar 13 Mai, lansiwyd Blwyddyn Cymru ar gyfer Gŵyl Ryng-geltaidd Lorient i gyfryngau Ffrainc ym Mharis. Dyma'r ŵyl ddiwylliannol fwyaf yn Ffrainc ac fe'i cynhelir yn wythnos gyntaf mis Awst. Gyda thua 200 o artistiaid o Gymru'n perfformio, bydd yn arddangosfa Ewropeaidd fawreddog i gyfoeth o dalent Cymru. Cynhelir Gŵyl Lorient ar yr un pryd â'r Eisteddfod ac rydym yn chwilio

am ffyrdd o gysylltu'r ddau ddigwyddiad diwylliannol blaenllaw yn ystod Blwyddyn Cymru.

Lansiais i a’r Gweinidog dros Ddiwylliant Flwyddyn Cymru yn Lorient yng Nghanolfan y Mileniwm ar 5 Mehefin ym mhresenoldeb y Cyfarwyddwr Cyffredinol a’i ragflaenydd. Mae llwyddiant Lorient yn adlewyrchu pa mor boblogaidd yw cerddoriaeth Geltaidd neu Lydewig erbyn hyn ym myd cerddoriaeth Ffrainc. Mae 8.5% o’r holl CDs neu DVDs Ffrengig sy’n cael eu gwerthu yn cynnwys cerddoriaeth o’r fath.

**Rhodri Morgan AC**
**Y Prif Weinidog**

# ARCHWILIAD IECHYD Y PAC

**Crynodeb o'r cynigion**

Cyhoeddwyd y cynigion ar 20 Mai. Dyma grynodeb cychwynnol.

## Pynciau Allweddol

Bydd cwotâu llaeth yn cynyddu 1% bob blwyddyn am y 5 mlynedd rhwng 2010/11 a 2013/14, ar ben y cynnydd o 2% yn Ebrill 2008 - hyn cyn dod â'r cwotâu llaeth i ben ar 31 Mawrth 2015.

Dileu neilltir gorfodol (ar gyfer ffermwyr âr) a'r premiwm cnydau ynni €45/ha.

Cynyddu'r modiwleiddio gorfodol 2% bob blwyddyn o 2010 i gyrraedd 13 y cant erbyn 2013. Gostyngiad canrannol ychwanegol (3%, 6% a 9% yn eu tro) i Daliadau Sengl o fwy na €100,000, €200,000 a €300,000. Bydd yr holl arian a ddaw o'r modiwleiddio ychwanegol yn cael ei gadw gan yr aelod-wladwriaeth/ranbarth. (Gollyngywd y cynigion i ostwng gwerth Taliadau Sengl uwch).

Dileu ar unwaith neu dros gyfnod yr holl daliadau sy'n dal i fod sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant, ac eithrio'r rheini ar gyfer buchod sugno a defaid/geifr lle bydd yr opsiwn 'datgysylltu' yn parhau. (Cafodd Cymru ei 'datgysylltu' yn 2005).

Opsiwn i symud y Taliad Sengl o'r sail hanesyddol i fodel rhanbarthol (tâl safonol), ac estyn opsiwn y SAPS ar gyfer aelodau newydd tan 2013.

Gwneud y taliadau o'r 'amlen genedlaethol' yn fwy hyblyg, a chyflwyno opsiynau newydd, gan gynnwys cyfraniad o 40% gan yr UE at ran o bremiwm yswiriant ffermwr. Yr opsiwn yw cymryd hyd at 10 y cant o gyfanswm gwerth y Taliadau Sengl a defnyddio'r arian i helpu sector sydd mewn angen.

Dod â mesurau ymyrraeth gyhoeddus ar gyfer reis, cig moch ac ydau heblaw gwenith bara i ben. Mae'r Cymorth ar gyfer Storfeydd Caws Preifat wedi'i ddileu a bydd llai o bwyslais yn cael ei roi ar fecanweithiau eraill ar gyfer masnachu cynnyrch llaeth.

Newid Cynlluniau Datblygu Gwledig a Strategaethau Cenedlaethol i adlewyrchu 'sialensau newydd' y newid yn yr hinsawdd, ynni adnewyddol, rheoli dŵr a bioamrywiaeth - gan ddefnyddio'r modiwleiddio gorfodol ychwanegol i dalu amdanynt.

## Newidiadau i Gynllun y Taliad Sengl

### Datgysylltu

Dileu ar unwaith y taliadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant ar gyfer gwenith caled, hopys, cywarch, hadau, porthiant sych, cnydau protein, olew'r olewydd

a chnau h.y. heb gyfnod pontio. (Ar gyfer cnau, gallai'r cymorth cenedlaethol barhau i fod yn 'gysylltiedig'). Ar gyfer reis, starts tatws a llin ffeibr hir, darperir cyfnod pontio o 2 flynedd h.y. haneru'r taliad presennol am 2 flynedd cyn ei ddileu.

Yn y sector cig eidion, cyfnod pontio cyn dileu'r opsiwn cysylltiedig ar gyfer y premiwm eidion gwryw, y premiwm lladd gwartheg llawndwf a'r premiwm lladd lloi. Ar gyfer y premiwm buchod sugno (hyd at 100% ohono'n 'gysylltiedig') ac ar gyfer y premiwm mamogiaid/geifr (50%), ceir cadw'r opsiwn 'cysylltiedig' (hyd at 2013) fel ag y mae (ond dim ond yn yr aelod-wladwriaethau/ranbarthau sy'n ei dalu nawr).

<u>Y premiwm cnydau ynni</u>

Yn sgil y galw cryf am biodanwyddau, sy'n gysylltiedig â'r targed clo o 10% o'r holl danwydd cludiant a ddefnyddir erbyn 2020, caiff y premiwm presennol o €45/ha ei ddileu.

<u>Addasu model Cynllun y Taliad Sengl (SPS) i 'daliad mwy safonol yr hectar'</u>:

Opsiwn i aelod-wladwriaethau/ranbarthau newid eu model ar gyfer y Taliad Sengl o'r model 'hanesyddol' i daliad rhanbarthol fesul hectar. Bydd Aelod-Wladwriaeth/Ranbarth yn gorfod rhoi gwybod i'r Comisiwn erbyn Awst 2009 p'un a fydd am ei fabwysiadu o 2010 ymlaen.

<u>Yr Amlen Genedlaethol</u>

Dylai'r mesurau a ragwelir o dan yr Erthygl 69 gyfredol ddod yn fwy hyblyg, ac mae'r dewis o opsiynau ar gyfer gwario'r cymorth hwn wedi tyfu. Mae opsiwn i wledydd gymryd hyd at 10 y cant o'r Taliad Sengl. Ni fydd rhaid gwario'r gyfran a gymerir ar sector penodol fel ar hyn o bryd mwyach. Yn ogystal â'r posibilrwydd ar hyn o bryd i dargedu mathau penodol o ffermio sy'n cynnig buddiannau amgylcheddol ychwanegol neu i wella ansawdd neu i farchnata'n well, bydd 4 opsiwn newydd i osgoi gadael i dir fynd yn segur a/neu i helpu ffermwyr i reoli risg:

(i) taliad blynyddol i dargedu anfanteision cynhyrchu rhanbarthol penodol yn y sectorau eidion, godro a defaid (a phroblemau amgylcheddol reis);

(ii) helpu ffermwyr mewn ardaloedd lle cynhelir rhaglenni datblygu/ailstrwythuro (trwy gynyddu nifer yr hawliau neu godi gwerth pob hawl);

(iii) cyfraniad blynyddol at bremiymau yswyrio cnydau, a

(iv) cronfeydd cydfuddiannol ar gyfer clefydau anifeiliaid (iawndal).

I osgoi anawsterau posibl â gofynion y WTO, mae rheol na fydd unrhyw fesurau a allai fod y tu allan i'r Blwch Gwyrdd (h.y. a allai ystumio'r farchnad)

yn fwy na 2.5 y cant o gyfanswm cymorth yr amlen (h.y. rhag ailgysylltu taliadau â chynhyrchiant).

Ar gyfer y cynllun yswirio cnydau (i ddigolledu ffermwyr am "golledion oherwydd tywydd difrodol") a'r cronfeydd cydfuddiannol, mae'r testun yn awgrymu na ddylai lefel y nawdd cyhoeddus fod yn fwy na 60 y cant o bremiwm/cyfraniad y ffermwr (neu 70 y cant o dan amodau arbennig) - ac y dylai (dim ond) 40 y cant o hwn ddod o'r UE.

Modiwleiddio Gorfodol (MG)

Y cynnig yw cynyddu modiwleiddio gorfodol 2 y cant bob blwyddyn o 2010 i gyrraedd lefel o 13 y cant erbyn 2013. Mae €5,000 cyntaf y Taliad Sengl (y ffranseis €5,000) yn dal yn ddiogel rhag modiwleiddio.

Bydd Taliadau Sengl o fwy na €100,000 yn cael eu modiwleiddio 3 y cant yn ychwanegol, dros €200,000 6 y cant a thros €300,000 9 y cant. Bydd hyn yn effeithio ar ryw 290 o ffermwyr yng Nghymru, gan esgor ar ryw €500,000 yn ychwanegol o arian modiwleiddio bob blwyddyn.

Bydd yr holl arian o geir o MG yn mynd i dalu am y Cynllun Datblygu Gwledig - a'i gadw gan yr aelod-wladwriaeth/ranbarth i helpu i dalu am agenda'r "sialensau newydd".  Bydd y gwledydd hynny sydd â rhaglen o fodiwleiddio gwirfoddol yn gorfod gostwng ei raddfa am bob canran o gynnydd o dan MG.

Terfyn lleiaf yr SPS

Rhaid i wledydd naill ai ddatgan na chaiff taliad sengl fod yn llai na €250 a/neu ddatgan na fydd daliadau sy'n llai nag 1 hectar yn gymwys amdano. Gallai hyn effeithio ar hyd at 380 o achosion yng Nghymru.

Trawsgydymffurfio

Bydd y Gofynion Rheoli Statudol yn cael eu diwygio er mwyn dileu'r rheolau "nad ydynt yn ddigon perthnasol i ffermio" neu sy'n faterion i awdurdodau cenedlaethol yn hytrach na ffermwyr i ddelio â nhw - e.e. y rheolau ar slwtsh carthion (Cyfarwyddeb 86/278), sy'n cael ei ddileu, a chaiff nifer eu cwtogi i agweddau perthnasol Erthyglau penodol yn hytrach na'r rheoliad neu'r Gyfarwyddeb lawn, e.e. rheoli clefydau.

Mae'r fframwaith ar Gyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da  (GAEC) yn cael ei newid i gynnwys yn benodol diogelu nodweddion y tirlun gan gynnwys perthi, ffosydd a llinellau o goed a sefydlu ardaloedd clustogi ar hyd cyrsiau dŵr.

Symleiddio

Mae'r Comisiwn yn cynnig mwy o hyblygrwydd o safbwynt y gronfa genedlaethol, trosglwyddo'r hawl i daliad, newid hawliau (o bosibl, uno'r 4

categori gwahanol yn un, gan ddileu hawliau neilltir) a rhyddhau'r Taliad Sengl yn 2 ran.

Dileu neilltir gorfodol

Byddai'r gofyn ar bob cynhyrchydd âr i gadw 10 y cant o'i dir yn neilltir gorfodol yn cael ei ddileu.

**Newidiadau i reolau Cyfundrefnau Marchnad Gyffredin**

Dileu cwotâu llaeth

O safbwynt dod â chwotâu i ben yn 2015, esmwythir y llwybr i hynny trwy gynyddu'r cwota 1 y cant y flwyddyn dros y 5 mlynedd o 2010/11 - hynny ar ben y 2 y cant o gynnydd o Ebrill 2008.

Bydd y Comisiwn yn cyflwyno hefyd adroddiad i'r Cyngor a Senedd Ewrop cyn diwedd 2012 ar fesurau posibl i esmwytho'r ffordd i fyd heb gwota.

Ymyrraeth Gyhoeddus

Dileu'r ymyrraeth ar gyfer gwenith caled ac ydau porthiant (haidd a sorgwm), gan adael ymyrraeth ar gyfer gwenith bara yn unig. A siarad yn dechnegol, mae'r cynnig yn cadw'r fecanwaith ar gyfer haidd a sorgwm (ond nid gwenith caled) ond ar nenfwd o 'sero' - fel yr hyn sydd wedi'i wneud gydag indrawn. Caiff yr ymyrraeth ar gyfer reis a chig moch hefyd ei dileu. Mae ymyrraeth yn dal i fod ar gyfer menyn (30,000t), llaeth sgim powdr (109,000t) a siwgr (600,000t tan 2009/10). Newid arall yw y bydd yr ymyrraeth ar gyfer gwenith, menyn a llaeth sgim powdr yn cael ei rheoli trwy system dendro, sy'n golygu na fydd yn y Comisiwn yn prynu symiau dros ben yn awtomatig.

Cwotâu starts tatws

Caiff y cwota starts tatws ei estyn am 2 flynedd arall, ond caiff ei ddileu i ategu'r symudiad i ddileu taliadau 'cysylltiedig'. 22.25 €/t o starts fydd y cymorth prosesu yn 2009/10 a 2010/11 a'r prif isaf yn yr un cyfnod fydd 178.31 €/t o datws. Caiff ad-daliadau cynhyrchu eu dileu.

Cynlluniau cymorth llaeth eraill

Caiff y Cymorth Storfeydd Caws Preifat a'r cynlluniau cymorth ar gyfer menyn (ar gyfer teisennau a hufen iâ ac i'w bwyta'n uniongyrchol) eu dileu a chaiff y rheolau eu newid ar gyfer y Cymorth Storfeydd Menyn Preifat - a'r arfau cymorth masnachu ar gyfer llaeth sgim powdr mewn porthiant ac mewn casein/caseinadau. Mater i'r Comisiwn fydd agor yr arfau hyn ar sail pris y farchnad yn hytrach na'u hagor yn awtomatig.

**Datblygu Gwledig**

Y brif elfen yw bod aelod-wladwriaethau bellach yn gorfod adolygu eu cynlluniau datblygu gwledig er mwyn mynd i'r afael â'r 4 sialens newydd - y newid yn yr hinsawdd, ynni adnewyddol, rheoli dŵr a bioamrywiaeth - o 2010 ymlaen, gan ddefnyddio'r arian a geir trwy'r modiwleiddio gorfodol newydd.

Bydd yn rhaid i wledydd gyflwyno cynllun datblygu newydd cyn pen 3 mis ar ôl mabwysiadu Canllawiau Strategol diwygiedig y Gymuned h.y. byddwn yn addasu cynllun datblygu Cymru yng ngoleuni sêl bendith y Comisiwn i Gynllun Strategol y DU (gydag adran ar wahân i Gymru).